

CYNGEN (bu farw 855), tywysog

Enw: Cyngen

Dyddiad marw: 855

Rhiant: Cadell ap Brochwel

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: tywysog

Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: John Edward Lloyd

mab Cadell tywysog Powys, a fu farw yn 808. Yr oedd o linach [Brochwel Ysgithrog](#); ar ôl teyrnasu am gyfnod hir aeth ar bererindod i Rufain - y tywysog cyntaf o Gymru, hyd y gwyddys, i fynd i'r daith hon wedi i Gymru ymostwng i awdurdod y pab. Un peth yn unig a'i henwogodd; cododd mewn dyffryn yn lâl a enwid wedi hynny yn Pant y Groes a Valle Crucis garreg goffa hardd, yn null Mercia, i'w hendaidd Elise, g r y dywedir amdano, mewn arysgrif hir, iddo lwyddo i adennill Powys o law'r Saeson tua'r flwyddyn 725. Ychydig o'r arysgrif a ellir ei ddarllen erbyn hyn, ond cymerth [Edward Lhuyd](#) gopi cyflawn ohoni yn 1696, a'i gopi ef a ddefnyddir heddiw gan y rhai sydd yn ceisio ei dehongli. (gweler *Archæologia Cambrensis*, 1935, 330-3.) Gwnaeth y cerfiwr gamgymeriad wrth dorri'r enw yn ' Eliseg '; yr hen ffurf, fel y dengys yr achau, oedd Elized, a ddaeth, yn raddol, yn Elisedd, Elise, ac Elis. Cafodd y golofn, ' Pilar Eliseg,' anap fwy nag unwaith; fe'i dymchwelwyd yn y Rhyfel Cartrefol ond ailgodwyd y gweddillion yn 1779.

Daeth hen linach Powys i ben gyda Chyngen, serch y dywedir fod iddo dri mab nid ymddengys i un ohonynt ei ddilyn. Ni wyddys yn sicr pa beth a ddaeth o'r dalaith, ond y mae'n debyg i [Rodri Mawr](#) deyrnasu arni, gan ei hawlio trwy Nest, ei fam, chwaer Cyngen.

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 204, 244, 324-5

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Cyngen ap Cadell](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q886405](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

